**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2022.

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

25 Mawrth 2022

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws ar hyn o bryd.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn eu bod yn gymesur.

Mae'r prif Reoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (yr hawl i ryddid mynegiant, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (yr hawl i ymgynnull ac ymgysylltu'n rhydd ag eraill) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur â'r nod hwnnw. Rhaid hefyd gydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i reoli cyfradd trosglwyddiadau'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a Rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y prif Reoliadau yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a achosir gan nifer yr achosion o'r coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2), sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau, gan gael effaith o 28 Mawrth 2022 ymlaen er mwyn–

- hepgor Rhan 3 o'r prif Reoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau hunanynysu os ydynt yn profi'n bositif am y coronafeirws, neu os ydynt yn gysylltiadau agos i bersonau sy'n profi'n bositif am y coronafeirws (ond mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn parhau i argymell hunanynysu);
- newid gofynion y prif Reoliadau i orchuddion wyneb gael eu gwisgo ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn mannau cyhoeddus o dan do penodol fel nad ydynt ond yn gymwys mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol mwyach;
- hepgor y gofyniad penodol i bersonau sy'n ymgyrchu mewn etholiad gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws (ond bydd yn ofynnol o hyd i bleidiau gwleidyddol gymryd mesurau rhesymol o'r fath o dan reoliad 16 o'r prif Reoliadau mewn perthynas â'u gweithgareddau mewn safleoedd rheoleiddiedig);
- hepgor y drosedd benodol yn y prif Reoliadau o ymwneud â threfnu digwyddiad cerddoriaeth mawr sydd heb ei drwyddedu.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol ar y diwygiadau a nodir uchod a'r rheini sydd wedi eu gwneud i'r prif Reoliadau yn flaenorol.

Maent hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol i'w gwneud yn glir bod unrhyw ofyniad cyfreithiol i berson hunanynysu yn peidio pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym (ond, eto, bydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn berthnasol i berson o'r fath).

Er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, mae'r prif Reoliadau yn parhau i ddarparu nad oes unrhyw lefel rhybudd yn gymwys i Gymru. Mae hyn yn golygu nad yw'r un o'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlenni 1 i 4 i'r prif Reoliadau yn gymwys.

## 5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd cymesur a brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ymgysylltwyd ag amrywiol randdeiliaid.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn unol â'r Cod, ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar y gost debygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, ynghyd â'r manteision o wneud hynny, oherwydd bod angen eu gosod yn eu lle ar

frys er mwyn sicrhau bod cyfyngiadau a gofynion y prif Reoliadau yn parhau i fod yn gymesur.

Gan fod y Rheoliadau diwygiedig hyn yn llacio mesurau sydd eisoes ar waith, cafodd yr asesiad effaith cryno blaenorol, sy'n cynnwys asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, a gyhoeddwyd ar 16 Medi 2021, ei adolygu ac mae'n parhau'n ddilys yn gyffredinol. Serch hynny, mae asesiad effaith cryno pellach wedi'i gwblhau ac mae wrthi'n cael ei baratoi ar gyfer ei gyhoeddi. Mae'r asesiad effaith hwn yn nodi'r effeithiau canlynol:

- mae disgwyl i ddileu cyfyngiadau cyfreithiol gael effaith gadarnhaol ar lesiant rhai unigolion sydd o bosibl yn teimlo bod darpariaethau presennol o ran gwisgo gorchuddion wyneb yn cael effaith negyddol arnynt, neu unigolion sydd o bosibl wedi teimlo'n unig o ganlyniad i orfod hunanynysu;

- ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd unigolion eraill yn teimlo'n bryderus os ydynt yn credu bod dileu cyfyngiadau'n digwydd yn rhy fuan ac yn peryglu iechyd. Gall hyn gael effaith negyddol ar eu llesiant, ac mae'n bosibl y byddant, yn hytrach, yn dewis cilio oddi wrth gymdeithas;

- mae'n bosibl y bydd dileu gofynion penodol ar gyfer ymgyrchu mewn etholiad yn peri pryder i ymgyrchwyr a phleidleiswyr a all deimlo'n ansicr ynghylch a yw ymgyrchu'n cael ei gynnal yn ddiogel.

Mae cyngor iechyd y cyhoedd wedi'i lunio i geisio lliniaru pryderon.